**Ombwdsmon Ombudsman**
Cymru • Wales

# Cofnodion Cryno o gyfarfod
# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
# yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025

CYMERADWYWYD

**Yn bresennol:** Mike Usher (Aelod Annibynnol a Chadeirydd)
Dave Tosh (Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd)
John McSherry (Aelod Annibynnol)
Laura Davies (Aelod Annibynnol)
Jayne Woods (Aelod Annibynnol)
Nia Roberts (Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Panel Ymgynghorol)

**Hefyd yn Bresennol:**
Michelle Morris (yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
Heather Beynon (Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol)
Katrin Shaw (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwaith Achos a Chyfreithiol)
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Rheolwr Cyllid
Pennaeth Gwasanaethau TG
TIAA
Archwilio Cymru
Cynorthwyydd Gweithredol Dros Dro (Cofnodion)

**1. Datgan Buddiannau**

1.1 Gwnaed datganiadau ynghylch newidiadau diweddar i swyddi allanol a ddelir gan aelodau.

**2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chworwm**

2.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2.2 Cadarnhawyd bod y cyfarfod yn gwneud cworwm fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025.

**4. Materion sy'n codi (nad ydynt ar yr agenda fel arall) a Chofnod Gweithredu**

4.1 Nodwyd y Materion sy'n codi a'r Cofnod Gweithredu gan y Pwyllgor.

4.2 Cadarnhawyd bod cam gweithredu blaenorol ar drefniadau Chwythu'r Chwiban wedi'i gwblhau.

**5. Materion Archwilio Mewnol**

5.1 **Argymhellion Archwilio Mewnol – Adroddiad Cynnydd**

5.1.1 Nid oedd unrhyw Argymhellion Archwilio Mewnol heb eu cymryd i'w nodi.

5.2 **Archwilio Mewnol – Cynllun Terfynol ac Adroddiad Cynnydd (SICA)**

5.2.1 Cyflwynodd TIAA eu diweddariad. Trafododd a nododd y pwyllgor gynnydd gyda'r rhaglen waith flynyddol.

**6. Materion Llywodraethu a Risg**

**6.1 Adroddiad a Chofrestr Risgiau a Materion**

6.1.1 Adolygodd y Pwyllgor newidiadau i'r Gofrestr Risg a thrafodwyd y gwelliannau ers y cyfarfod diwethaf a chanlyniadau'r sesiwn gweithdy risg ym mis Gorffennaf.

6.1.2 Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y risgiau allweddol a'r lliniariadau sydd ar fynd. Roedd cynnydd da o ran lliniaru meysydd risg allweddol yn amlwg, ond roedd cynnydd o 11% mewn cwynion am wasanaethau cyhoeddus yn ychwanegu at bwysau llwyth gwaith a chynnydd cyfatebol mewn risg. Byddai'r ymddangosiad diweddar o gwynion a gynhyrchir gan AI yn cael ei fonitro'n agos, a byddai ei effeithiau posibl yn cael eu hasesu'n ofalus, gan gynnwys cysylltu â chyrff goruchwylio eraill i rannu dulliau ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg.

6.1.3 Ar y cyfan, cafodd y pwyllgor sicrwydd bod prosesau rheoli risg yn effeithiol, gyda chynnydd clir wedi'i wneud ar draws meysydd staffio, technoleg, cyllid a llywodraethu, gan barhau i fonitro risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**6.2 Dilysu Data**

6.2.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gyda chamau gwella i wella sicrwydd ynghylch ansawdd data. Cytunodd i gynnal ymchwiliad manwl i'r pwnc hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**6.3 Seiberddiogelwch**

6.3.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd yr ymdriniwyd ag ymosodiad seiber ar ein gwefan allanol. Cytunodd y Pwyllgor fod llinellau amddiffyn lluosog y sefydliad wedi gweithio'n effeithiol, a bod y digwyddiad wedi darparu profiad gwerthfawr.

6.3.2 Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yn ei gyfarfod nesaf ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, yn enwedig

CYMERADWYWYD

y rhai â therfynau amser hirach, er mwyn rhoi sicrwydd bod pob eitem yn cael sylw. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â lefel y sicrwydd a ddarparwyd.

**6.4 Parodrwydd i dderbyn risg**

6.4.1 Trafododd yr aelodau ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg y sefydliad a chefnogasant y symudiad i ddull manylach. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Tîm Rheoli ystyried addasiadau posibl i rai o lefelau parodrwydd y categori risg ac iddynt ddod â datganiad wedi'i ddiweddaru i'r cyfarfod ym mis Ionawr i'w ystyried.

**6.5 Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Rheoli Risg**

6.5.1 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Polisi Rheoli Risg gael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw addasiadau canlyniadol i'r datganiad parodrwydd i dderbyn risg. Byddai'r polisi diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr i'w adolygu.

**6.6 Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth**

6.6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a nododd bwysigrwydd cysylltu'r broses o reoli risg seiber â'r parodrwydd cyffredinol i dderbyn risg a'r polisi.

**7. Materion archwilio ariannol ac allanol**

**7.1 Argymhellion Archwilio Allanol**

7.1.1 Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar argymhellion yr archwiliad allanol a'r cynnydd boddhaol a wnaed.

**7.2 Monitro Ariannol Ch2 2025/26**

7.2.1 Trafododd a nododd y pwyllgor y sefyllfa ar ddiwedd Ch2.

**7.3 Diweddariad Archwilio Cymru**

7.3.1 Nodwyd papur Archwilio Cymru.

**8. Materion rheoli'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

**8.1 Materion eraill sydd angen eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

8.1.1 Nodwyd y papur.

**8.2 Adolygiad a diweddariad blynyddol Parhad Busnes**

8.2.1 Trafodwyd y papur a bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w adolygu.

**8.3 Adolygiad o'r Fframwaith Atal Twyll a'r Polisi Gwrth-dwyll**

8.3.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adolygiad, a chymeradwywyd y polisi diweddaredig.

**8.4 Myfyrdod ar eitemau i'w hystyried yn y dyfodol**

8.4.1 Nodwyd eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

CYMERADWYWYD

9.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn swyddfeydd OGCC ddydd Mercher, 27 Ionawr 2025.

******************************************************************

CYMERADWYWYD